

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru

Polisi Amgylcheddol


Caiff swyddogaethau Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (CFfDLC) eu pennu yn Neddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013. Ei rôl yw cadw'r holl ardaloedd llywodraeth leol yng Nghymru, ynghyd â'r trefniadau etholiadol ar gyfer y prif ardaloedd, o dan arolwg a chyflwyno'r cynigion hynny i Lywodraeth Cymru fel yr ymddengys yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Mae prif effeithiau amgylcheddol y busnes yn ymwneud â llunio adroddiadau papur a theithio busnes. Mae'r Comisiwn yn sefydliad bach sy'n gweithredu o lawr gwaelod adeilad swyddfa yn unig. Wrth gydnabod yr effeithiau hyn, **trwy ddangos gwelliant amgylcheddol parhaus ac ymrwymiad i atal llygredd**, bydd CFfDLC:

- yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddeddfwriaeth berthnasol a gofynion eraill i warchod yr amgylchedd, ac yn ystyried nodiadau cyfarwyddyd cysylltiedig;
- yn lleihau'r defnydd o bapur trwy gynyddu'r defnydd o TGCh er mwyn sicrhau cyfarfodydd 'di-bapur' gan y Comisiwn a busnes cysylltiedig, lle bo hynny'n bosibl;
- yn defnyddio papur A4 sydd wedi'i ailgylchu 100% ym mheiriannau argraffu/llungopïo'r swyddfa, lle bynnag y bo hynny'n bosibl; caiff dogfennau darfodedig a hen bapurau newydd eu hailgylchu, lle bo hynny'n bosibl; bydd contractwyr argraffu yn defnyddio cerdyn wedi'i ailgylchu 50% a phapur 100% wedi'i achredu gan FSC wrth gynhyrchu cyhoeddiadau CFfDLC;
- lle y bo'n bosibl, yn annog contractwyr i fabwysiadu polisiau amgylcheddol gyfrifol;
- yn lleihau, adfer ac yn ailgylchu gwastraff lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ac yn cadw a gwaredu'r holl wastraff yn briodol;
- yn lleihau gwastraff trwy aildefnyddio ac ailgylchu, a thrwy brynu cynhyrchion a deunyddiau ailgylchedig, ailgylchadwy neu wedi'u hadnewyddu pan fydd y dewisiadau hyn ar gael, yn ddarvoudus ac yn addas;
- yn hyrwyddo defnydd effeithlon o ddeunyddiau ac adnoddau ar draws ein cyfleuster, gan gynnwys dŵr, trydan, deunyddiau crai ac adnoddau eraill, yn enwedig y rhai sy'n anadnewyddadwy;
- yn monitro'r defnydd o wasanaethau ac effaith teithio ar ôl troed carbon y Comisiwn;
- yn sicrhau bod aelodau staff yn ymwybodol o'r effeithiau amgylcheddol yn ymwneud â'u cyflogaeth;
- yn cynnwys ystyried pryderon ac effeithiau amgylcheddol a amlygwyd yn y Cynllun Gwella yn ein holl benderfyniadau a gweithgareddau;
- yn hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol ymhlith ein cyflogeion yn ymwneud â materion a all effeithio ar eu gwaith trwy hyfforddiant ac arfer da, a'u hannog i weithio mewn modd amgylcheddol gyfrifol;
- yn osgoi defnydd diangen o ddeunyddiau a chynhyrchion peryglus, yn chwilio am ddewisiadau eraill pan fo hynny'n ymarferol, ac yn cymryd pob cam rhesymol i amddiffyn iechyd dynol a'r amgylchedd pan fydd rhaid defnyddio, cadw a gwaredu'r deunyddiau hynny;
- yn prynu ac yn defnyddio cynhyrchion amgylcheddol gyfrifol yn briodol;
- yn cyfathrebu ein hymrwymiad amgylcheddol i gleientiaid, cwsmeriaid a'r cyhoedd ac yn eu hannog i'w gefnogi;
- yn ymdrechu i wella ein perfformiad amgylcheddol yn barhaus a lleihau effaith a niwed cymdeithasol ein gweithgareddau trwy adolygu ein polisi amgylcheddol o dro i dro, yng ngoleuni ein hymrwymadau presennol a'n hymrwymadau arfaethedig at y dyfodol; a
- phan gaiff problemau neu ddiffyg cydymffurfio â'r gofynion eu hamlygu, caiff cyfrifoldebau eu dyrannu a chymru eu cymryd, yn unol ag Adran E Safon y Ddraig Werdd 2016.

Bydd y Polisi hwn yn destun adolygiad blynyddol, yn cael ei gyfathrebu i'r staff a bydd ar gael i bob parti â buddiant.

Llofnod Prif Weithredwr:



Dyddiad y'i llofnodwyd: 29/08/19

Arolwyg nesaf: Awst 2019



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission,
For Wales